

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 10fed Ebrill 2018 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Lynford Thomas (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Haf Hughes, Hywel Ifans

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau

**2. PERSONOL**

Dim i'w cofnodi

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL**

Dim i'w datgelu

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 13eg o Fawrth 2018 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eilwyd gan Y Cyng. Alan Henson.

**5.. MATERION YN CODI**

10 v. Cadarnhodd y Clerc ei bod wedi anfon ymateb i Ymgynghoriad Strategaethau Toiledau Lleol Llywodraeth Cymru ac wedi derbyn cydnabyddiaeth ynghyd â chopi o'r ymateb.

12. ii Derbyniwyd ateb gan Haydn Lewis, Ceidwad Hawliau Tramwy a Chefn Gwlad Cyngor Sir Ceredigion. Cadarnhaodd nad oes unrhyw lwybr tramwy cyhoeddus wedi'i gofrestru ar hyd y llwybyr sy'n rhedeg o Graigwen i Gae-garw trwy Lety Rhys, felly nid oes gan y cyhoedd hawl i'w ddefnyddio.

**6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith yn ystod y mis diwethaf gan nodi'n arbennig yr ymweliad ysbrydoledig â Chanolfan y Bont, Ysgol Bro Pedr. Bu hefyd yn Eisteddfod Sir yr Urdd a gynhaliwyd yn Y Bont a nododd Y Cyng. Harry Williams lwyddiant Ysgol Felinfach wrth i'r Parti Unsain gipio'r wobwr gyntaf a'r Parti Cerdd Dant yr ail wobwr.

Atgoffwyd yr aelodau bod ei gyfnod fel Cadeirydd y Sir yn dod i ben ym mis Mai. Bydd yn ail afael â'i ddyletswyddau ar y Pwyllgor Cynllunio a hynny fel Is-Gadeirydd.

**7. ADRODDIAD CYFARFOD HENEDDIO'N DDA 15/3/2018**

Mynychodd y Cadeirydd y cyfarfod a gynhaliwyd yn Aberystwyth. Cafwyd nifer o gyflwyniadau gan amryw o grwpiau, gwasanaethau ac asiantaethau gan roi gwybodaeth a chynngor ar ystod eang o bynciau. Nododd y Cadeirydd y cyfraniad mawr y mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud wrth i'r gwasanaeth iechyd a lles wynebu heriau i gynnal gwasanaethau angenrheidiol.

## 8. CYLLID

- i. Mae cais am ad-daliad TAW o £378.31 wedi ei anfon at Adran Cyllid a Thollau EM.

## 9. GOHEBIAETH

Derybniwyd:

- i. gwahoddiad i anfon cynigion ar gyfer cyfarfod cyffredinol blynyddol Un Llais Cymru. Penderfynwyd y dylid anfon unrhyw gynigion at y Clerc erbyn y cyfarfod nesaf.
- ii. gwybodaeth am Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Un Llais Cymru. Penderfynwyd anfon rhestr o'r enillwyr at yr aelodau er gwybodaeth.
- iii. gwybodaeth am Ddigiwyddiad ar y Cyd Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol – 16 Mai yn Llandrindod. £75.00 + TAW. Penderfynwyd i'r Clerc fynychu'r cyfarfod hwn.
- iv. gwybodaeth am ddigiwyddiad ymgynghori Trawsnewid Eich Gwasanaeth Lles. i gynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion ar ddydd Llun 30ain Ebrill yn Neuadd Felinfach. 2 gynrychiolydd (ac eilyddion) Cytunwyd y byddai'r Cyng. Harry Williams a'r Cyng. Lynford Thomas yn mynychu'r cyfarfod a'r Clerc fel eilydd.
- v. llythyr oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion, Adran Trwyddedu, yn gofyn am farn y cyngor ar yr effaith y mae perchnogion cŵn anghyfrifol yn cael ar y gymuned. Maent yn trafod y posibilrwydd o gyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestr a chodi ffi an wneud hynny ac eisiau barn am lefel y ffi a fyddai'n rhesymol i'w godi. Y swm â awgrymwyd yw £20.  
  
Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi'r syniad ac i awgrymu ffi o £25 i'w ystyried. Cynigiwyd gan Y Cyng. Harry Williams ac eilwyd gan Y Cyng. Glyn Davies.
- vi. gwybodaeth gan Age Cymru am grantiau hyd at £1000 i ariannu gweithgareddau mewn cymunedau lleol a allai gael eu sefydlu i leddfu unigedd ac unigrwydd. Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach.
- vii. dogfen ymgynghori Cryfhau Llwyodraeth Leol. Mae angen ymatebion erbyn 18fed Mai. Gofynnodd Y Cyng. Hywel Ifans am gopi o'r dogfennau.
- viii. llythyr gan C.FF I. Felinfach yn holi am gyfraniad tuag at y Rali a gynhelir ar ffarm Sychpant ar Fehefin 2il. Cyn dechrau'r drafodaeth datganodd Y Cyng. Haf Hughes ddiddordeb yn sgil ei rôl fel Aelod Ymgynghorol ar Bwyllgor y Rali Yn dilyn trafodaeth am lwyddiant clodwiw Clwb Felinfach wrth ennill y Rali am y tro cynta' ers dechrau'r 50au cynigwyd cyfraniad o £250.00 gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Johnny Davies. Derbyniwyd y cynnig yn dilyn pleidlais gyda saith yn unfrydol a'r Cyng. Harry Williams yn atal ei bleidlais.

## **10. CYNLLUNIO**

Derbyniwyd un cais i'w ystyried:

- i. A180216. Five Acres (Gors Villa gynt), Dihewyd. Dymchwel yr ystafell haul yn y cefn a chodi estyniad cefn i'r adeilad. Dosbarthwyd copïau o'r cynlluniau. Wedi trafodaeth, penderfynwyd nad oedd unrhyw sail i wrthwynebu'r cais cynllunio, ond penderfynwyd cysylltu â'r adran gynllunio i ddatgan siom yn y newid ar enw'r tŷ a'r pryder am ddiflaniad graddol o'r defnydd o enwau traddodiadol ar eiddo yn yr ardal.

## **11. UNRHYW FATER ARALL**

- i. B4232 ar gorneli ffarm Cefn Ystrad, Ystrad Aeron. Mae yna cryn dipyn o slyri ar y darn yma o'r ffordd yn amal ac o'r herwydd mae'r ffordd yn llithrig ac yn beryglus. Codwyd pryder y bydd yn achosi damwain yn hwyr neu'n hwyrach.
- ii. B4232 Maesyderi, Ystrad Aeron. Pant wedi amlygu yn y ffordd.
- iii. Nododd Y Cyng. Alan Henson, a chadarnhawyd gan y Clerc, na chasglwyd y sbwriel ar yr hewl waelod yng Nghribyn tuag at Mydroilyn/Cwrtnewydd ddydd Mawrth 10fed Ebrill.

Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau parthed y materion uchod.

## **13 DYDDIAD A LLEOLIAD YR AGM**

Nos Fawrth, 8fed Mai yn Ysgol Cribyn.